# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Willow Hall**

**Cartref Preswyl Willow Hall**
**Ffordd y Gogledd**
**Caernarfon**
**LL55 1BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_15 Mai 2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Willow Hall

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Foelas residential home limited |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mai 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy, darperir gwasanaeth dwyieithog |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal cadarnhaol gan staff caredig a gofalgar; gall y bobl ddewis sut a ble i dreulio eu hamser, ac mae'r staff gofal ar gael ac yn barod i alluogi'r bobl. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r rheolwyr yn gefnogol ac yn goruchwylio'r staff gofal yn effeithiol ac yn eu hannog i ddatblygu. Mae'r amgylchedd yn lân ac mae mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Mae cynlluniau ar waith i adnewyddu a gwella'r amgylchedd yn barhaus.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis beth i'w wneud o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn cael eu helpu gan y staff gofal yn y cartref. Roedd un aelod o'r staff gofal yn cyrlio gwallt un o'r preswylwyr. Gwelsom fod y staff gofal yn sylwgar iawn ac yn cefnogi'r bobl, a oedd yn ymddangos yn fodlon eu byd ac yn hapus.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Gwelsom y staff gofal yn helpu ac yn cefnogi'r bobl drwy gydol yr ymweliad arolygu; roedd y bobl yn symud o amgylch gyda chymorth y staff. Gall y bobl ddewis ble maent yn bwyta eu cinio a chyda phwy. Mae'r fwydlen ar gyfer pob pryd bwyd yn cynnig dewis da i'r bobl. Gwelsom y staff gofal yn helpu un o'r bobl i gysylltu ag aelodau o'i deulu gan ddefnyddio iPad. Ffoniodd y staff weithwyr iechyd proffesiynol sawl gwaith.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu’r bobl. Caiff y bobl asesiadau risg unigol lle y bo'n briodol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon eu byd ac yn hapus. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac roeddent yn gwybod yr hyn y dylent ei wneud pe baent yn pryderu am rywun. Mae'r rheolwyr yn gwneud yn siŵr bod y staff gofal yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu, meddyginiaeth, codi a chario ac atal cwympiadau. Gwelsom fod atgyfeiriadau amserol a phriodol yn cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Mae'r rheolwr yn awyddus i ddarparu a hwyluso hyfforddiant i'r staff a gweithgareddau hamdden i'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn brysur drwy'r dydd, a'u bod yn cael dewis sut maent yn treulio eu hamser. Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl, megis trin gwallt, siop a chrefftau; hefyd roedd iPads ar gael i'r bobl gysylltu â'u teuluoedd. Gwelsom fod y staff gofal yn garedig ac yn llawn anogaeth. Roedd lluniau o amrywiaeth o weithgareddau a dathliadau gan gynnwys dawnsio, crefftau a digwyddiadau cenedlaethol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn eu hannog. Gwnaeth y rheolwyr ddangos cynlluniau i ddatblygu'r staff gofal drwy gyfleoedd hyfforddi. Roedd ffeiliau'r staff a welsom yn dangos bod y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant gofynnol.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn; gwelsom y bobl yn sgwrsio â'i gilydd. Mae'r staff gofal yn canolbwyntio ar anghenion y bobl yn emosiynol ac yn gorfforol. Gwelsom y bobl yn cael hwyl ac yn chwerthin gyda'r staff gofal a'r rheolwr; roedd hyn yn naturiol iawn, ac roedd yr amgylchedd yn un cynnes a chyfeillgar. Gwelsom un o'r bobl yn gweld dau aelod o'i deulu gan ddefnyddio iPad y gwasanaeth, gyda'r staff gofal gerllaw er mwyn cynnig help lle y bo angen.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a diogel. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn lân, yn ddiogel ac wedi'u personoli. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol. Gwelsom bethau cofiadwy, sy'n fuddiol i'r bobl sy'n byw gyda dementia. Roedd angen adnewyddu rhai o'r ardaloedd cymunedol, gan gynnwys tair

ystafell ymolchi, a'r carped. Gwelsom ohebiaeth a chynlluniau a oedd yn dangos y bydd y gwaith adnewyddu hwn yn mynd rhagddo yn y dyfodol agos.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y darparwyr gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol yn nodi sut y dylid darparu gofal i'r bobl. Gwnaethom edrych ar dair ffeil gofal a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys cofnodion clir a manwl. Gwnaethom siarad â dau o'r bobl ac edrych ar eu ffeiliau; mae'r cofnodion gofal yn gyson ag anghenion gofal y bobl, eu dymuniadau a'u harferion. Gwelsom fod cydweithio â gwahanol weithwyr iechyd proffesiynol a theuluoedd y bobl wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei datblygu dros amser. Roedd cynlluniau ar waith i wella prosesau cynllunio gofal er mwyn sicrhau eu bod yn seiliedig ar ganlyniadau; bydd hyn yn helpu'r bobl i gyflawni eu nodau, a bydd yn nodi anghenion a dewisiadau unigol mewn modd mwy personol.

Caiff y bobl y gofal da sydd ei angen arnynt, a chaiff y gwasanaeth a gânt ei ddylunio drwy ymgynghori â nhw. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal. Gwelsom lofnodion y bobl a'r staff yn y ddogfennaeth i gyd. Roedd y cofnodion gofal yn fanwl ac yn bersonol i bob unigolyn. Roedd y ddogfennaeth gofal yn cael ei hadolygu o fewn y terfynau amser gofynnol, neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Caiff risgiau i'r unigolion eu hystyried a'u monitro. Mae'r cynlluniau gofal a'r asesiadau risg yn fanwl ac yn cynnwys manylion am symudedd, iechyd y croen, deiet, cwsg ac arferion beunyddiol. Gwelsom fod y cofnodion gofal ar gael i'r staff gofal, sy'n gwneud yn siŵr bod y cofnodion yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu llofnodi drwy gydol y dydd a'r nos.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau eraill yn rhan o'r gwaith o gynllunio ac adolygu'r gofal. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth a ddywedodd wrthym fod y rheolwr a'r staff gofal yn cyfleu anghenion iechyd a gofal yn effeithiol, ac yn cynnwys y teuluoedd a phobl eraill yn y gwaith o gynllunio gofal. Mae'r asesiadau risg a welsom yn cynnwys gwybodaeth a chyngor gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Gwelsom fod y gofal a'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar ôl ymgynghori â gweithwyr proffesiynol.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn hybu ymarfer effeithiol a hylan. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyfredol yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth bresennol. Gwelsom fod y staff gofal yn cael gwybod am ddatblygiadau ym maes rheoli heintiau drwy sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd staff a chyswllt dyddiol â'r rheolwyr. Gwelsom fod y staff gofal yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac yn ei waredu'n effeithiol ac yn briodol. Mae trefniadau glanhau a hylendid effeithiol ar waith, dan oruchwyliaeth y rheolwr a'r darparwr.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwelsom ohebiaeth rhwng y rheolwr a gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch rheoli meddyginiaethau. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaethau, a chynhelir asesiad o'u gallu yn y maes hwn cyn iddynt fynd ati i roi meddyginiaeth. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch rhoi meddyginiaeth. Mae'r cofnodion meddyginiaeth a welsom yn gywir ac yn cael eu monitro gan yr uwch-staff gofal a'r rheolwr. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei threfnu a'i storio'n ddiogel, a'i chadw dan glo yn briodol. Mae polisi a

gweithdrefnau meddyginiaeth y gwasanaeth yn gyfredol ac yn gyson â pholisïau a deddfwriaeth bresennol. Caiff meddyginiaeth a phrosesau rhoi meddyginiaeth eu goruchwylio'n effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Roedd y bobl yn gyfforddus ac yn hapus yn eu hamgylchedd, ac yn gwneud y gorau o'r ardaloedd cymunedol. Mae'r rheolwyr wedi cymryd camau i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn dilyn y canllawiau diweddaraf ar reoli heintiau. Gwelsom fod yr holl ddodrefn trwm yn sownd wrth y waliau. Byddai'n fuddiol tacluso'r swyddfeydd.

Gwelsom fod y staff gofal yn gwneud yn siŵr bod unrhyw un sy'n ymweld â'r adeilad yn destun proses atal a rheoli heintiau, gan gynnwys cymryd eu tymheredd, gofyn iddynt olchi eu dwylo a gweld a oes ganddynt unrhyw heintiau. Roedd y fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y cyfarpar trydanol, y goleuadau a'r cyfarpar diogelwch tân yn cael eu profi o fewn y terfynau amser gofynnol. Caiff cymhorthion symudedd a chyfarpar codi'r bobl eu gwirio a'u monitro fel sy'n ofynnol. Mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng y bobl wedi'u personoli ac yn hygyrch. Gwelsom amrywiaeth o gymhorthion synhwyraidd sy'n fuddiol i'r bobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys coridorau â ffotograffau, coridorau synhwyraidd cymunedol â thema a siop '*Siop bach ni*' i'r preswylwyr allu cael eitemau o'u dewis.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn cael ei reoli'n effeithlon. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau a welsom yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben. Roedd y cofnodion gofal a welsom yn dangos tystiolaeth eu bod yn gyfredol, ac yn cael eu hadolygu a'u newid pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae ffeiliau'r staff yn dangos eu bod yn cael eu cefnogi o fewn terfynau amser ac yn cael hyfforddiant priodol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cwblhau hyfforddiant sy'n eu helpu i feithrin eu sgiliau gofal. Mae'r hyfforddiant yn amrywio ac yn cynnwys hyfforddiant ar brosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a gofal lliniarol. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn adolygu'r systemau ac yn penderfynu ar welliannau i'r systemau presennol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth wrthi'n newid y ffeiliau gofal i sicrhau eu bod yn 'Seiliedig ar ganlyniadau', sy'n golygu bod gofal yn cael ei roi yn unol â dewisiadau'r bobl ac anghenion unigol.

Mae systemau ar waith i adolygu a monitro ansawdd y gofal a ddarperir. Gofynnir i'r bobl, eu teulu, eu ffrindiau a gweithwyr proffesiynol roi adborth ar ansawdd y gofal a roddir i'r bobl. Roedd yr adborth a welsom yn gadarnhaol. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn cyfathrebu â'i gilydd mewn modd cadarnhaol yn rheolaidd ac yn barhaus. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod system gadarn ar gyfer monitro ansawdd ar waith mewn modd creadigol.

Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Gwelsom fod nifer o welliannau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys buddsoddi mewn dodrefn newydd o ansawdd da. Gwnaethom edrych ar gynlluniau i wneud mwy o welliannau i ystafelloedd ymolchi cymunedol a lloriau'r ardaloedd cymunedol. Gwelsom fod y staff gofal yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa, gan gynnwys Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefelau dau, tri, pedwar a phump. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau bod yswiriant, polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn unol â deddfwriaeth bresennol.

Mae'r lefelau staffio yn ddigonol ac mae mesurau ar waith i sicrhau hyn. Gwelsom fod lefelau staffio digonol yn ystod ein hymweliad arolygu. Roedd y rota staff a welsom hefyd yn cadarnhau bod y lefelau staffio yn ddigonol yn barhaus. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff yn gweithio i ddarparu gofal o ansawdd da. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod y staff yn cael eu recriwtio a'u goruchwylio'n ddiogel. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, '*Mae'n le da i weithio'.* Gwelsom fod cynlluniau ar waith ar gyfer hyfforddiant pellach a pharhaus. Roedd systemau ar waith i wneud yn siŵr bod y staff gofal yn darllen, yn llofnodi ac yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth pan gânt eu diweddaru. Mae'r hyfforddiant a roddir i'r staff gofal yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr yn anfon hysbysiadau priodol i gyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol perthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau a all effeithio ar lesiant y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cyfathrebu mewn modd effeithiol a thryloyw. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol.